CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

OFFERYNNAU STATUDOL

2001 Rhif 2497 (Cy. 201)

ADDYSG, CYMRU

Gorchymyn Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau Ychwanegol) (Diwygio) 2001

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn.)

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau Ychwanegol) 2000. Mae'n darparu ar gyfer cofnodi unrhyw orchmynion disgyblu sy'n cael eu gwneud yn erbyn athro neu athrawes gan Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru neu gan Gyngor Addysgu Cyffredinol Lloegr. Mae ceryddon sy'n cael eu rhoi gan y naill neu'r llall o'r Cynghorau i'w cofnodi yn erbyn enw'r athro neu'r athrawes am gyfnod o ddwy flynedd o'r dyddiad pan fydd y cerydd yn cael ei roi.

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

STATUTORY INSTRUMENTS

2001 No. 2497 (W. 201)

EDUCATION, WALES

The General Teaching Council for Wales (Additional Functions) (Amendment) Order 2001

EXPLANATORY NOTE

(This note does not form part of the Order.)

This Order amends The General Teaching Council for Wales (Additional Functions) Order 2000. It provides for the recording of any disciplinary orders made against a teacher by the General Teaching Council for Wales or the General Teaching Council for England. Reprimands issued by either of the Councils are to be recorded against the name of the teacher for a period of 2 years from the date the reprimand is issued.

OFFERYNNAUSTATUDOL

2001 Rhif 2497 (Cy. 201)

ADDYSG, CYMRU

Gorchymyn Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau Ychwanegol) (Diwygio) 2001

Wedi'i wneud *5 Gorffennaf 2001*
Yn dod i rym *1 Awst 2001*

Drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 7(1) a (4) a 42(6) a (7) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998(**a**) ac sydd wedi'u breinio bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru(**b**), mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan ei fod o'r farn y gall Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru, o ystyried eu hamcanion cyffredinol, gyflawni'n briodol y swyddogaethau ychwanegol a roddir drwy hyn ac ar ôl cyflawni unrhyw ymgynghori y mae'n ymddangos iddo ei fod yn briodol, yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

Enw a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau Ychwanegol) (Diwygio) 2001 a daw i rym ar 1 Awst 2001.

Diwygio Gorchymyn Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau Ychwanegol) 2000

2. Mae Gorchymyn Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau Ychwanegol) 2000(**c**) yn cael ei ddiwygio fel a ganlyn -

(a) yn erthygl 3(2), ar ôl "Gorchymyn hwn", mewnosodir -

"am unrhyw gyfnod (os o gwbl) a bennir yn y Rhan honno ac"; a

(b) yn Rhan II o'r Atodlen, ar ôl paragraff 23, mewnosodir -

(a) 1998 p.30. Mae'r darpariaethau perthnasol yn gymwys i Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru yn rhinwedd adrannau 8 a 9 o'r Ddeddf a Gorchymyn Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru 1998 (O.S. 1998/2911).

(b) Gweler Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).

(c) O.S. 2000/1941 (Cy.139).

STATUTORY INSTRUMENT

2001 No. 2497 (W. 201)

EDUCATION, WALES

The General Teaching Council for Wales (Additional Functions) (Amendment) Order 2001

Made *5th July 2001*
Coming into force *1st August 2001*

In exercise of the powers conferred on the Secretary of State by sections 7(1) and (4) and 42(6) and (7) of the Teaching and Higher Education Act 1998(**a**) and now vested in the National Assembly for Wales(**b**), the National Assembly for Wales, being of the opinion that the General Teaching Council for Wales may, having regard to their general objectives, appropriately discharge the additional functions hereby conferred and having carried out such consultation as appears to it to be appropriate, makes the following Order:

Citation and commencement

1. This Order is called the General Teaching Council for Wales (Additional Functions) (Amendment) Order 2001 and shall come into force on 1st August 2001.

Amendment of the General Teaching Council for Wales (Additional Functions) Order 2000

2. The General Teaching Council for Wales (Additional Functions) Order 2000(**c**) is amended as follows -

(a) in article 3(2), after "this Order", there shall be inserted -

"for such period (if any) as is specified in that Part and"; and

(b) in Part II of the Schedule, after paragraph 23 there shall be inserted -

(a) 1998 c.30. The relevant provisions apply in relation to the General Teaching Council for Wales by virtue of sections 8 and 9 of the Act and the General Teaching Council for Wales Order 1998 (S.I. 1998/2911).

(b) See the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I 1999/672).

(c) S.I. 2000/1941 (W.139).

"**23A**. Telerau unrhyw orchymyn disgyblu, heblaw cerydd, sydd am y tro mewn grym, a wnaed gan y Cyngor neu gan Gyngor Addysgu Cyffredinol Lloegr.

23B. Telerau unrhyw gerydd a roddwyd gan y Cyngor neu gan Gyngor Addysgu Cyffredinol Lloegr, am gyfnod o ddwy flynedd o'r dyddiad y rhoddwyd y cerydd.".

"**23A**. The terms of any disciplinary order, other than a reprimand, for the time being in force, made by the Council or the General Teaching Council for England.

23B. The terms of any reprimand issued by the Council or the General Teaching Council for England, for a period of two years from the date the reprimand was issued.".

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**a**)

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(**a**).

5 Gorffennaf 2001

5th July 2001

D. Elis. Thomas

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

The Presiding Officer of the National Assembly

(a)1998 p.38.

(a) 1998 c.38.

OFFERYNNAU STATUDOL

2001 Rhif 2497 (Cy. 201)

ADDYSG, CYMRU

Gorchymyn Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau Ychwanegol) (Diwygio) 2001

STATUTORY INSTRUMENTS

2001 No. 2497 (W. 201)

EDUCATION, WALES

The General Teaching Council for Wales (Additional Functions) (Amendment) Order 2001

©ⓟ Hawlfraint y Goron 2001

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2001

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-090299-8

9 780110 902999

£1.75

W334/08/01 ON